# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**2014 dccc 4**

## RHAN 5

CODI FFIOEDD AC ASESIADAU ARIANNOL

*Gorfodi dyledion*

### 72 Trosglwyddo asedau i osgoi ffioedd

(1) Mae'r adran hon yn gymwys mewn achos pan fo anghenion person ("P") wedi eu diwallu neu'n cael eu diwallu gan awdurdod lleol o dan adrannau 35 i 42 neu adran 45 a phan fo—

(a) person ("y trosglwyddwr") (a gaiff fod yn P ond nid oes rhaid iddo) wedi trosglwyddo ased i berson arall ("trosglwyddai"),

(b) y trosglwyddiad wedi ei wneud gyda'r bwriad o osgoi ffioedd am ddiwallu anghenion P, ac

(c) naill ai'r gydnabyddiaeth ar gyfer y trosglwyddiad yn llai na gwerth yr ased neu na fo unrhyw gydnabyddiaeth ar gyfer y trosglwyddiad.

(2) Mae'r trosglwyddai yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth rhwng—

(a) y swm y byddai'r awdurdod wedi ei godi ar y trosglwyddwr pe na bai'r ased wedi ei drosglwyddo, a

(b) y swm a gododd ar y trosglwyddwr mewn gwirionedd.

(3) Ond nid yw'r trosglwyddai yn atebol i dalu i'r awdurdod lleol swm sy'n fwy na'r budd a ddaw i'r trosglwyddai o'r trosglwyddiad.

(4) Pan fo ased wedi ei drosglwyddo i fwy nag un trosglwyddai, mae atebolrwydd pob trosglwyddai yn gymesur â'r budd a ddaw i'r trosglwyddai hwnnw o'r trosglwyddiad.

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 72 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Yn yr adran hon ystyr "ased" yw unrhyw beth y caniateir ei ystyried at ddibenion asesiad ariannol.

(6) Gwerth ased (ac eithrio arian parod) yw'r swm a geid pe bai'r ased wedi ei werthu ar y farchnad agored gan werthwr bodlon adeg y trosglwyddiad, gan ddidynnu ar gyfer—

(a) swm unrhyw lyffethair ar yr ased, a

(b) swm rhesymol mewn cysylltiad â threuliau'r gwerthiant.

(7) Caiff rheoliadau bennu achosion neu amgylchiadau pan na fo atebolrwydd o dan is-adran (2) yn codi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 72 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 199(2)**

**I2** A. 72 mewn grym ar 6.4.2016 gan O.S. 2016/412, **ergl. 2** (ynghyd ag ergl. 4, Atod. 1, Atod. 2)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Adran 72 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 30 Ebrill 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

- s. 162(4)(ga) inserted by 2022 asc 1 Sch. 4 para. 30(2)(b)
- s. 163(4A) inserted by 2014 c. 23 s. 75(10) (Effect inserting (4) not applied at s. 163 as it appears to relate to s. 194 in view of the title of the section as cited i.e. "ordinary residence". In s. 194 another (4), identically worded, is inserted on the same date by S.I. 2016/413, regs. 2(1), 316(a))